

TAG UG/SAFON UWCH



TAG UG/SAFON UWCH CBAC BUSNES

ACHREDWYD GAN LYWODRAETH CYMRU

MANYLEB

Addysgu o 2015

I'w ddyfarnu o 2016 (UG)

I'w ddyfarnu o 2017 (Safon Uwch)

Fersiwn 2 Mawrth 2019



CRYNODEB O NEWIDIADAU

Fersiwn	Disgrifiad	Rhif y dudalen
2	Newidiwyd yr adran 'Cofrestru' i egluro rheolau ailsefyll.	33

TAG Uwch Gyfrannol a Safon Uwch Busnes CBAC

I'w addysgu o 2015

UG i'w ddyfarnu o 2016

Safon Uwch i'w dyfarnu o 2017

Mae'r fanyleb hon yn bodloni'r Egwyddorion Cymwysterau TAG UG a Safon Uwch sy'n pennu gofynion yr holl fanylebau TAG newydd neu ddiwygiedig a ddatblygwyd i'w haddysgu yng Nghymru o fis Medi 2015.

	Tudalen
Crynodeb o'r asesiad	2
1. Rhagarweiniad	3
1.1. Nodau ac Amcanion	3
1.2. Dysgu blaenorol a dilyniant	4
1.3. Cydraddoldeb ac asesu teg	4
1.4. Bagloriaeth Cymru	5
1.5. Persbectif Cymreig	5
2. Cynnwys y pwnc	6
2.1. Unedau UG	7
2.2. Unedau U2	21
3. Asesu	32
3.1. Amcanion asesu a phwysoli	32
4. Gwybodaeth dechnegol	33
4.1. Cofrestru	33
4.2. Graddio, dyfarnu ac adrodd yn ôl	34
Atodiad A: Sgiliau Meintiol mewn Busnes	35

TAG UG a SAFON UWCH BUSNES (Cymru)

CRYNODEB O'R ASESIAD

Mae'r fanyleb hon wedi'i rhannu'n gyfanswm o 4 uned, 2 uned UG a 2 uned U2. Mae'r pwysoli a nodir isod yn cael ei fynegi yn nhermau'r cymhwyster Safon Uwch llawn.

UG (2 uned)

UG Uned 1 Cyfleoedd Busnes Arholiad ysgrifenedig: 1 awr 15 munud 15% o'r cymhwyster	60 marc
Cwestiynau atebion byr a chwestiynau strwythuredig. Cyfleoedd busnes, cychwyn busnesau, SMEs a mathau eraill o fusnesau a'r marchnadoedd y maent yn gweithredu ynddynt.	
UG Uned 2 Swyddogaethau Busnes Arholiad ysgrifenedig: 2 awr 25% o'r cymhwyster	80 marc
Cwestiynau ymateb i ddata. Yn cwmpasu'r holl gynnwys UG.	

Safon Uwch (yr uchod yn ogystal â 2 uned arall)

U2 Uned 3 Dadansoddi Busnes a Strategaeth Fusnes Arholiad ysgrifenedig: 2 awr 15 munud 30% o'r cymhwyster	80 marc
Cwestiynau ymateb i ddata a chwestiynau strwythuredig. Strategaeth fusnes a thechnegau dadansoddol a ddefnyddir yn y broses gwneud penderfyniadau busnes.	
U2 Uned 4 Busnes mewn Byd sy'n Newid Arholiad ysgrifenedig: 2 awr 15 munud 30% o'r cymhwyster	80 marc
Astudiaeth achos ac un traethawd o ddewis o dri. Yn cwmpasu'r holl gynnwys Safon Uwch.	

Manyleb unedol yw hon sy'n caniatáu am elfen o asesu mewn camau. Bydd cyfleoedd asesu ar gael yn ystod cyfnod asesu'r haf bob blwyddyn, tan ddiwedd oes y fanyleb hon.

Bydd Uned 1 ac Uned 2 ar gael yn 2016 (a phob blwyddyn wedi hynny) a dyfernir y cymhwyster UG am y tro cyntaf yn haf 2016.

Bydd Uned 3 ac Uned 4 ar gael yn 2017 (a phob blwyddyn wedi hynny) a dyfernir y cymhwyster Safon Uwch am y tro cyntaf yn haf 2017

Rhif Cymhwyster
ar restr [The Register](#):
TAG UG: 601/5260/6
TAG Safon Uwch: 601/5238/2

Rhif Cymeradwyo Cymwysterau Cymru
ar restr [QiW](#):
TAG UG: C00/0722/4
TAG Safon Uwch: C00/0722/2

TAG UG a SAFON UWCH BUSNES

1 RHAGARWEINIAD

1.1 Nodau ac amcanion

Mae manyleb UG a Safon Uwch Busnes CBAC yn annog dysgwyr i wneud y canlynol:

- datblygu brwdfrydedd ar gyfer astudio busnes
- cael dealltwriaeth gyfannol o fusnes mewn cyd-destunau amrywiol
- datblygu dealltwriaeth feirniadol o fusnesau a'u gallu i gwrdd ag anghenion a chwantau'r gymdeithas
- deall bod modd astudio ymddygiad busnes o amrywiaeth o berspectifau
- cynhyrchu datrysiadau mentrus a chreadigol i gyfleoedd, problemau a materion busnes
- gwybod am y cyfyng-gyngor moesegol a'r cyfrifoldebau moesegol a wynebir gan fusnesau ac unigolion
- caffael amrywiaeth o sgiliau busnes a generig perthnasol, gan gynnwys gwneud penderfyniadau, datrys problemau, herio tybiaethau a dadansoddi beirniadol
- defnyddio sgiliau rhifiadol mewn cyd-destunau busnes amrywiol.

Mae'r fanyleb hon yn cyflwyno'r dysgwyr i'r amgylchedd busnes dynamig a phwysigrwydd gweithgaredd entrepreneuraidd wrth greu cyfleoedd busnes a chynnal twf busnes. Bydd dysgwyr yn cael y cyfle i feithrin amrywiaeth eang o'r sgiliau hanfodol sydd eu hangen ar gyfer addysg uwch a chyflogaeth.

Yn y fanyleb hon, canolbwyntir ar fagu brwdfrydedd am astudio busnes gan ddefnyddio cyd-destunau cyfoes, sy'n caniatáu i ddysgwyr ddod i werthfawrogi pa mor strategol, cymhleth a chydberthynol yw natur materion busnes o berspectif lleol i fyd-eang.

Bydd dysgwyr yn cael y cyfle i ddatblygu ymwybyddiaeth o faterion busnes cyfoes sy'n berthnasol i'r amgylchedd busnes yng Nghymru.

1.2 Dysgu blaenorol a dilyniant

Nid oes unrhyw ofynion dysgu blaenorol. Y ganolfan sydd i benderfynu ar unrhyw ofynion sy'n cael eu pennu o ran cael mynediad i gwrs sy'n dilyn y fanyleb hon. Mae'n rhesymol derbyn y bydd llawer o'r dysgwyr wedi ennill cymwysterau sy'n cyfateb i Lefel 2 CA4. Bydd sgiliau yn Rhifedd/Mathemateg, Llythrennedd/Saesneg a Thechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu yn sylfaen dda ar gyfer symud ymlaen i'r cymhwyster Lefel 3 hwn.

Bydd rhai dysgwyr eisoes wedi caffael gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau o astudio Busnes ar gyfer TGAU.

Rhestrir sgiliau meintiol yn y meini prawf pynciol a'u hailadrodd yn Atodiad A y fanyleb hon.

Darperir sylfaen addas yn y fanyleb hon ar gyfer astudio busnes neu faes perthynol trwy ddilyn amrywiaeth o gyrsiau addysg uwch, symud ymlaen i'r lefel nesaf o gymwysterau galwedigaethol neu gyflogaeth. Yn ogystal, mae'r fanyleb yn darparu cwrs astudio sy'n gydlynol, boddhaol ac yn werth chweil i'r dysgwyr hynny nad ydynt yn symud ymlaen i astudio ymhellach neu i ddilyn gyrfa yn y pwnc hwn.

Nid yw'r fanyleb hon yn benodol i oedran ac, o'r herwydd, mae'n darparu cyfleoedd i ddysgwyr barhau i ddysgu gydol oes.

1.3 Cydraddoldeb ac asesu teg

Gellir astudio'r fanyleb hon gan unrhyw ddysgwr, beth bynnag fo'i ryw, cefndir ethnig, crefyddol neu ddiwylliannol. Lluniwyd y fanyleb i osgoi, lle bo'n bosibl, nodweddion a allasai, heb gyfiawnhad, ei gwneud yn fwy anodd i ddysgwr lwyddo oherwydd bod ganddynt nodwedd benodol wedi ei hamddiffyn.

O dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010 y nodweddion penodol wedi'u hamddiffyn yw oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw neu gyfeiriadedd rhywiol.

Mae'r fanyleb hon wedi'i thrafod â grwpiau sy'n cynrychioli diddordebau ystod amrywiol o ddysgwyr, ac adolygir y fanyleb yn gyson.

Gwneir addasiadau rhesymol ar gyfer dysgwyr penodol fel bod yr asesiadau o fewn eu cyrraedd (e.e. caniateir i ymgeiswyr ddefnyddio Dehonglydd Iaith Arwyddion, gan ddefnyddio Iaith Arwyddion Prydain). Mae gwybodaeth am addasiadau rhesymol i'w chael yn nogfen y Cyd-gyngor Cymwysterau (CGC): *Trefniadau Mynediad ac Addasiadau Rhesymol Cymwysterau Cyffredinol a Galwedigaethol*.

Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan y CGC (www.jcq.org.uk). Gan fod darpariaeth yn cael ei gwneud ar gyfer addasiadau rhesymol, prin iawn fydd nifer y dysgwyr sy'n cael eu hatal yn llwyr rhag unrhyw ran o'r asesiad.

1.4 Bagloriaeth Cymru

Dylai dysgwyr, wrth ddilyn y fanyleb hon, gael cyfleoedd, lle bo'n briodol, i ddatblygu'r sgiliau sy'n cael eu hasesu trwy Graidd Bagloriaeth Cymru:

- Llythrennedd
- Rhifedd
- Llythrennedd Ddigidol
- Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau
- Cynllunio a Threfnu
- Creadigedd ac Arloesi
- Effeithiolrwydd Personol.

1.5 Persbectif Cymreig

Rhaid i ddysgwyr, wrth ddilyn y fanyleb hon, ystyried persbectif Cymreig os bydd cyfle i wneud hynny'n deillio'n naturiol o'r deunydd pwnc ac os byddai gwneud hynny'n cyfoethogi dealltwriaeth dysgwyr o'r byd o'u cwrpas fel dinasyddion o Gymru yn ogystal â'r DU, Ewrop a'r byd.

2 CYNNWYS Y PWNC

Mae'r cynnwys pwnc yn galluogi dysgwyr i ymchwilio i fusnesau o fathau a meintiau gwahanol mewn gwahanol sectorau ac amgylcheddau busnes, gan ddefnyddio cyd-destunau lleol, cenedlaethol a byd-eang, yn cynnwys data sy'n berthnasol i amgylchedd busnes Cymru. Bydd dysgwyr yn datblygu dealltwriaeth gyfannol o fusnes a menter ac yn ymwybodol o'r cyfleoedd a'r bygythiadau sydd ynghlwm â gweithredu mewn marchnad fyd-eang.

Bydd disgwyl i ddysgwyr fod yn gyfarwydd â materion cyfredol ym myd busnes a gallu ymchwilio, dadansoddi a gwerthuso cyfleoedd a phroblemau busnes cyfoes mewn amrywiaeth eang o gyd-destunau, gan gydnabod ar yr un pryd sut mae busnesau yn addasu i weithredu mewn amgylchedd busnes dynamig.

Bydd dysgwyr yn dod i ddeall pwysigrwydd rôl busnesau bach yn yr economi yng Nghymru a gweddill y DU. Yn ogystal, byddant yn nodi'r cyfleoedd sy'n bodoli i fentrwyr/entrepreneuriaid, yn ogystal â phwysigrwydd busnesau sefydledig a busnesau nad ydynt yn gweithredu ar gyfer elw wrth ddarparu nwyddau a gwasanaethau.

Bydd dysgwyr yn defnyddio nifer o dechnegau dadansoddi, yn cynnwys modelau gwneud penderfyniadau, offer gwerthuso buddsoddiad a dadansoddi cymarebau, i ymchwilio i gyfleoedd a phroblemau busnes er mwyn penderfynu strategaeth fusnes mewn amrywiol gyd-destunau.

Bydd disgwyl i ddysgwyr ddefnyddio amrywiaeth o sgiliau rhifiadol a gwneud penderfyniadau y gellir eu cyfiawnhau gan ddefnyddio dulliau meintiol ac ansoddol wedi'u cymhwyso yng nghyd-destun UG a Safon Uwch Busnes fel y mae Atodiad A yn eu rhestru.

Mae'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau wedi'u trefnu mewn dwy golofn. Mae'r testun sydd i'w astudio yn y golofn gyntaf, a manylion y cynnwys yn yr ail golofn. Nid oes unrhyw drefn flaenoriaeth wrth gyflwyno'r wybodaeth a'r manylion hanfodol, ac ni ddylid ystyried bod hyd y gwahanol adrannau yn awgrymu unrhyw farn am eu pwysigrwydd cymharol.

2.1 UNEDAU UG

Uned 1 Cyfleoedd Busnes

Arholiad ysgrifenedig: 1 awr 15 munud

15% o'r cymhwyster Safon Uwch (37.5% o'r cymhwyster UG)

Mae'r uned hon yn canolbwyntio ar gychwyn busnesau newydd a busnesau bach a chanolig eu maint (*SMEs*). Seiliwyd cynnwys yr adran hon ar y cysyniad o gychwyn busnes newydd a'r materion sydd ynghlwm wrth y broses o gynllunio busnes newydd. Yn ogystal â chwmpasu prif gysyniadau cychwyn busnes newydd, dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o fathau eraill o fusnesau a'r marchnadoedd y maent yn gweithredu ynddynt a'r amrywiol randdeiliaid sydd ganddynt.

Bydd angen i ddysgwyr astudio'r meysydd cynnwys canlynol:

- Menter
- Cynlluniau busnes
- Marchnadoedd
- Ymchwil marchnata
- Strwythur busnes
- Lleoliad busnes
- Cyllid busnes
- Derbyniadau a chostau busnes.

Cynnwys	Manylion y Cynnwys
Menter	Esbonio ystyr menter a SMEs Esbonio sut mae diwallu anghenion a chwantau yn gallu rhoi cyfleoedd i fentrwyr/entrepreneuriaid Nodi cyfleoedd busnes Esbonio rôl y mentwr/yr entrepreneur yn creu, sefydlu, rhedeg a datblygu busnes Esbonio cymhellion ariannol a chymhellion nad ydynt yn ariannol sydd gan fentrwyr/entrepreneuriaid Esbonio nodweddion a sgiliau mentwrwyr/entrepreneuriaid Esbonio pwysigrwydd mentwrwyr/entrepreneuriaid ac SMEs i sectorau cynradd, eilaidd a thrydyddol economïau Cymru a gweddill y DU Gwerthuso effaith mentwrwyr/entrepreneuriaid ac SMEs ar fusnesau ac ar yr economi Enwi'r amrywiol randdeiliaid mae busnes yn effeithio arnyn nhw
Cynlluniau busnes	Esbonio pwrpas a phrif gydrannau cynllun busnes Gwerthuso pwysigrwydd cynllun busnes Nodi'r prif ffynonellau gwybodaeth ac arweiniad sydd ar gael i fentrwyr/entrepreneuriaid yng Nghymru a gweddill y DU
Marchnadoedd	Esbonio beth yw ystyr marchnad a chystadleuaeth Nodi mathau gwahanol o farchnadoedd, yn cynnwys rhai lleol/byd-eang, torfol/cloer, masnach/defnyddiwr, cynnyrch/gwasanaeth a thymhorol Dadansoddi a dehongli data am y farchnad, yn cynnwys maint y farchnad, cyfran o'r farchnad a thueddiadau'r farchnad Esbonio beth yw ystyr segmentiad y farchnad Esbonio sut mae marchnadoedd yn cael eu segmentu Gwerthuso pwysigrwydd ac effaith segmentu ar fusnes a'i gwsmeriaid Deall bod graddau gwahanol o gystadleuaeth gan farchnadoedd gwahanol, yn amrywio o gystadleuaeth berffaith i fonopoli Esbonio nodweddion cystadleuaeth berffaith, cystadleuaeth fonopolaidd, oligopoli a monopoli a'u heffaith ar ymddygiad busnes Deall y rhesymau pam mae angen gwarchod defnyddwyr weithiau rhag cael eu hecsbloetio gan fusnesau Esbonio beth yw ystyr galw, cyflenwad a chydbwysedd Deall pwysigrwydd galw a chyflenwad yn y farchnad

Cynnwys	Manylion y Cynnwys
	Esbonio'r ffactorau sy'n arwain at newid mewn galw a chyflenwad Esbonio sut mae newid mewn galw a chyflenwad yn gallu effeithio ar bris a maint Llunio a dehongli diagramau galw a chyflenwad Deall y ffactorau sy'n achosi i gromliniau galw a chyflenwad symud a'r effaith mae'r symud hwn yn ei chael ar bris cytbwys a maint cytbwys Dadansoddi a gwerthuso ffactorau sy'n effeithio ar alw a chyflenwad a chydbwysedd Deall y cysyniad o elastigedd pris ac incwm galw (nid oes gofyn i'r dysgwyr wneud cyfrifiadau) Esbonio natur nwyddau israddol, normal a moeth
Ymchwil marchnata	Esbonio beth yw ystyr ymchwil marchnata Esbonio gwerth cynnal ymchwil marchnata Gwahaniaethu rhwng ymchwil marchnata cynradd ac ymchwil marchnata eilaidd Gwerthuso'r defnydd o ymchwil marchnata i fusnes a'i randdeiliaid Gwahaniaethu rhwng data ansoddol a data meintiol Esbonio'r dulliau gwahanol o ymchwil cynradd ac eilaidd sydd ar gael i fusnesau Esbonio'r materion ynghlwm wrth ddewis y dull ymchwil marchnata mwyaf priodol Gwerthuso'r defnydd o ddulliau gwahanol o ymchwil cynradd ac eilaidd Dehongli a gwerthuso ymchwil meintiol ac ansoddol Esbonio beth yw ystyr samplu Esbonio'r gwahaniaeth rhwng dulliau hapsamplu a samplu cwotâu Deall yr angen i osgoi tuedd mewn ymchwil marchnata Gwerthuso defnyddioldeb samplu i fusnes a'i randdeiliaid

Cynnwys	Manylion y Cynnwys
Strwythur busnes	Esbonio'r gwahaniaeth rhwng y sector preifat a chyhoeddus Esbonio nodau busnesau sector preifat gan gynnwys goroesi, twf ac elw Esbonio nodau'r sector cyhoeddus a'i rôl yn darparu nwyddau a gwasanaethau yng Nghymru a gweddill y DU Gwerthuso rolau'r sectorau cyhoeddus a phreifat wrth ddarparu nwyddau a gwasanaethau Esbonio strwythur cyfreithiol busnesau sector preifat gwahanol gan gynnwys unig fasnachwyr, partneriaethau, cwmnïau cyfyngedig preifat a chyhoeddus Esbonio beth yw ystyr atebolrwydd llawn ac atebolrwydd cyfyngedig Esbonio manteision ac anfanteision dewis strwythurau cyfreithiol gwahanol ar gyfer busnes Gwerthuso'r ffactorau sy'n effeithio ar y dewis o strwythur cyfreithiol busnes Esbonio prif nodweddion busnesau nad ydynt yn gweithredu ar gyfer elw gan gynnwys mentrau cymdeithasol, elusennau, cydweithfeydd a chymdeithasau Gwerthuso pwysigrwydd ac effaith y strwythur cyfreithiol i amrywiol randdeiliaid busnes
Lleoliad busnes	Esbonio'r ffactorau y mae angen eu hystyried wrth leoli busnes newydd Dadansoddi'r ffactorau hyn mewn perthynas ag anghenion y busnes Gwerthuso'r dewis o leoliadau gwahanol ar gyfer busnes newydd
Cyllid busnes	Esbonio'r ffynonellau cyllid sydd ar gael i fentrwyr/entrepreneuriaid ac SMEs yng Nghymru a gweddill y DU Dadansoddi manteision ac anfanteision pob ffynhonnell cyllid Gwerthuso ffynonellau cyllid gwahanol sydd ar gael i fentrwyr/entrepreneuriaid ac SMEs

Cynnwys	Manylion y Cynnwys
Derbyniadau a chostau busnes	Esbonio ystyr costau, derbyniadau ac elw Nodi costau i fusnes, yn cynnwys costau sefydlog, newidiol, lled-newidiol, uniongyrchol, anuniongyrchol/gorbenion a chyfanswm costau Cyfrifo derbyniadau, costau ac elw Dehongli cyfrifiadau derbyniadau, costau ac elw Gwerthuso effaith costau, derbyniadau ac elw ar fusnes a'i randdeiliaid Esbonio beth yw ystyr cyfraniad Esbonio beth yw ystyr adennill costau Cyfrifo cyfraniad a deall sut mae'n cael ei ddefnyddio i gyfrifo adennill costau Llunio a dehongli siartiau adennill costau, yn cynnwys y ffin diogelwch Dangos ar siart adennill costau effeithiau newidiadau mewn costau a derbyniadau Dadansoddi sut mae newidiadau mewn costau a/neu dderbyniadau yn gallu effeithio ar adennill costau (dadansoddiad 'beth os') Gwerthuso defnyddioldeb adennill costau i fusnes a'i randdeiliaid

Uned 2 Swyddogaethau Busnes

Arholiad ysgrifenedig: 2 awr

25% o'r cymhwyster Safon Uwch (62.5% o'r cymhwyster UG)

Bydd Uned 2 yn asesu'r cynnwys UG llawn.

Mae'r uned hon yn ehangu'r cyd-destun i ddysgwyr a bydd yn cynnwys pob math o fusnesau, yn amrywio o fusnesau bach newydd eu ffurfio i gwmnïau amlwladol sefydledig. Mae angen i'r dysgwyr ddeall bod yn rhaid i bob busnes ystyried swyddogaethau craidd busnes er mwyn llwyddo mewn marchnad gystadleuol.

Bydd angen i ddysgwyr astudio'r meysydd cynnwys canlynol:

- Marchnata
- Cyllid
- Pobl mewn busnesau (adnoddau dynol)
- Rheoli gweithrediadau.

Ar y cyd, bydd y ddwy uned UG yn rhoi dealltwriaeth i ddysgwyr o'r rôl bwysig sydd gan fusnesau bach yn yr economi a'r cyfleoedd sydd ar gael i fentrwyr/entrepreneuriaid, yn ogystal â phwysigrwydd busnesau sefydledig a busnesau nad ydynt yn gweithredu ar gyfer elw wrth ddarparu nwyddau a gwasanaethau.

Cynnwys	Manylion y Cynnwys
Marchnata	Esbonio pwrpas marchnata a'i bwysigrwydd i fathau gwahanol o fusnesau mewn sefyllfaoedd gwahanol
	Esbonio beth yw ystyr cyfeiriadu at y farchnad, cyfeiriadu at y cynnyrch a marchnata sy'n cael ei arwain gan asedau
Y cymysgedd marchnata	Esbonio beth yw ystyr y cymysgedd marchnata
Cynnyrch	Esbonio beth yw ystyr cynnyrch, portffolio cynhyrchion, brand, pwynt gwerthu unigryw (USP) a gwahaniaethu Gwerthuso pwysigrwydd cael y cynnyrch (cynhyrchion) cywir i fusnes a'i randdeiliaid Esbonio beth yw ystyr cylchred oes cynnyrch Esbonio'r cyfnodau yn y gylchred oes cynnyrch Esbonio beth yw ystyr strategaeth estyn Llunio a dehongli diagram cylchred oes cynnyrch gan gynnwys strategaethau estyn Gwerthuso effaith strategaethau estyn ar fusnes Esbonio'r berthynas rhwng y gylchred oes cynnyrch a llif arian Dadansoddi cylchredau oes cynnyrch a strategaethau estyn ar gyfer busnesau, cynhyrchion a marchnadoedd gwahanol Gwerthuso'r defnydd o'r gylchred oes cynnyrch i fusnes a'i randdeiliaid Esbonio sut mae'n bosibl defnyddio matrices Boston i reoli portffolio cynhyrchion Gwerthuso'r defnydd o fatrics Boston i fusnes a'i randdeiliaid
Pris	Esbonio'r strategaethau gwahanol mae busnesau'n eu defnyddio i benderfynu'r pris priodol ar gyfer cynnyrch gan gynnwys treiddio, hufennu, cost plws, cystadleuol, seicolegol a chyfraniad Deall sut bydd mathau gwahanol o fusnesau mewn sefyllfaoedd gwahanol yn defnyddio strategaethau prisio gwahanol Gwerthuso'r pwysigrwydd i fusnes o ddethol y strategaeth brisio fwyaf priodol Gwerthuso effaith penderfyniadau prisio ar fusnes a'i randdeiliaid

Cynnwys	Manylion y Cynnwys
Hyrwyddo	Esbonio beth yw ystyr hyrwyddo Esbonio'r strategaethau uwchlaw'r llinell ac islaw'r llinell gwahanol mae busnesau'n eu defnyddio i hyrwyddo eu cynhyrchion Deall sut mae mathau gwahanol o fusnesau mewn sefyllfaoedd gwahanol yn defnyddio amrywiaeth o strategaethau hyrwyddo gwahanol Esbonio'r pwysigrwydd i fusnes o ddethol y strategaeth hyrwyddo fwyaf priodol Gwerthuso'r effaith mae dewis y strategaeth hyrwyddo gywir yn ei chael ar fusnes a'i randdeiliaid
Lle	Esbonio beth yw ystyr lle Esbonio'r sianeli dosbarthu gwahanol mae busnesau'n eu defnyddio Esbonio beth yw ystyr dosbarthu aml-sianel Esbonio pa mor bwysig i fusnes yw dethol y sianel/i dosbarthu mwyaf priodol Gwerthuso'r effaith mae dethol y sianel/i dosbarthu cywir yn ei chael ar fusnes a'i randdeiliaid
Penderfyniadau am y cymysgedd marchnata	Deall pwysigrwydd marchnata byd-eang a brandiau byd-eang Esbonio sut bydd y cymysgedd marchnata yn wahanol mewn cyd-destunau gwahanol gan gynnwys marchnadoedd lleol, cenedlaethol neu fyd-eang, marchnadoedd nwyddau neu wasanaethau, maint busnes, marchnadoedd cloer neu dorfol a strwythur marchnad Gwerthuso'r cymysgedd marchnata mewn cyd-destunau gwahanol
Technoleg newydd	Esbonio sut mae technoleg newydd yn cael ei defnyddio mewn marchnata, gan gynnwys rôl cyfryngau digidol, cyfryngau cymdeithasol, e-adwerthu ac m-fasnach Esbonio effeithiau technoleg newydd ar fusnesau sy'n bodoli'n barod fel adwerthwyr y stryd fawr Gwerthuso effaith technoleg newydd ar weithgareddau marchnata busnes a'i randdeiliaid

Cynnwys	Manylion y Cynnwys
Cyllid	Deall rôl yr adran gyllid
Cyllidebu	Esbonio beth yw ystyr cyllideb Esbonio pwrpas cyllidebau Gwerthuso'r defnydd o gyllidebau i fusnes a'i randdeiliaid
Cyllid busnes	Esbonio'r ffynonellau cyllid sydd ar gael i fusnesau sefydledig a mawr yng Nghymru a gweddill y DU ac ystyried pa mor briodol ydynt mewn amgylchiadau gwahanol Deall bod ffynonellau cyllid yn gallu bod yn fewnol a/neu'n allanol Esbonio ffynonellau cyllid mewnol gan gynnwys cyfalaf perchenogion, elw cadw a gwerthu asedau Esbonio ffynonellau/dulliau cyllid allanol gan gynnwys gorddrafftiau, benthychiadau, cyfalaf menter, prydlesu, credyd masnach a ffactorio dyledion Esbonio manteision ac anfanteision ffynonellau cyllid gwahanol i fusnes a phwysigrwydd dewis ffynonellau priodol Gwerthuso effaith ffynonellau cyllid gwahanol i fusnes a'i randdeiliaid
Rhagolygon llif arian	Esbonio beth yw ystyr llif arian Esbonio beth yw ystyr rhagolwg llif arian Llunio, cyfrifo a dehongli rhagolygon llif arian Gwerthuso effaith rhagolwg llif arian ar fusnes a'i randdeiliaid Esbonio achosion problemau llif arian Esbonio strategaethau y gallai busnes eu defnyddio i wella llif arian Gwerthuso strategaethau mae busnes yn eu defnyddio i wella problemau llif arian Esbonio buddion a chyfyngiadau rhagolygon llif arian
Yr adroddiad incwm	Esbonio prif elfennau cyfrif masnachu, elw a cholled (yr adroddiad incwm) a'r ffordd mae'n cael ei lunio Cyfrifo elw crynswth ac elw net Gwerthuso ffyrdd y gallai busnes wella ei elw Cyfrifo a dehongli ffiniau elw crynswth a net
Dadansoddi cymarebau	Gwerthuso cyfrifiadau cymarebau proffidioldeb er mwyn asesu perfformiad busnes

Cynnwys	Manylion y Cynnwys
Pobl mewn busnesau (adnoddau dynol)	Esbonio swyddogaethau'r adran adnoddau dynol
Newidiadau mewn arferion gweithio	Esbonio beth yw ystyr y gweithlu hyblyg gan gynnwys oriau hyblyg, gweithio o gartref, rhan-amser, dros dro, rhannu swydd, sgiliau lluosog, cytundebau sero oriau a desgiau poeth Esbonio effaith technoleg newydd ar arferion gweithio Gwerthuso'r effaith mae newidiadau mewn patrymau gweithio'n ei chael ar weithwyr a chyflogwyr
Cynllunio'r gweithlu	Esbonio beth yw ystyr cynllunio'r gweithlu Gwerthuso'r effaith i fusnes o gael y niferoedd cywir o weithwyr gyda'r sgiliau a'r profiad priodol a pha mor bwysig yw hynny
Recriwtio	Esbonio beth yw ystyr y broses recriwtio Esbonio beth yw ystyr recriwtio mewnol ac allanol Esbonio beth yw ystyr dadansoddiad swydd, disgrifiad swydd a manyleb person Gwerthuso dulliau priodol o ddethol mathau gwahanol o weithiwr ar gyfer mathau gwahanol o swyddi gan gynnwys cyfweiliadau, treialon gwaith, profion, ymarferion dethol a chyfweiliadau dros y ffôn Gwerthuso pwysigrwydd recriwtio i fusnes a'i randdeiliaid
Hyfforddiant	Esbonio beth yw ystyr hyfforddiant Esbonio rôl hyfforddiant o ran datblygu sgiliau priodol Esbonio'r dulliau gwahanol o hyfforddiant gan gynnwys sefydlu, yn y gwaith, i ffwrdd o'r gwaith a phrentisiaethau Gwerthuso pwysigrwydd ac effaith hyfforddiant i fusnes a'i randdeiliaid
Gwerthusiad (Appraisal)	Esbonio beth yw ystyr gwerthuso Esbonio dulliau gwerthuso gwahanol gan gynnwys asesiad gan swyddog uwch, asesiad cyfoedion, hunanasesiad ac adborth 360 gradd Deall sut mae'r busnes a'i weithwyr yn gallu elwa o gael trefn werthuso Gwerthuso pwysigrwydd ac effaith trefn werthuso i fusnes a'i randdeiliaid

Cynnwys	Manylion y Cynnwys
Perfformiad gweithlu	Esbonio beth yw ystyr perfformiad gweithlu
	Esbonio beth yw ystyr cynhyrchedd llafur, absenoliaeth a throsiant llafur
	Cyfrifo a dehongli cynhyrchedd llafur a throsiant llafur
	Gwerthuso pwysigrwydd ac effaith perfformiad gweithlu i fusnes a'i randdeiliaid
Cynllunio trefniadaethol	Esbonio beth yw ystyr cynllunio trefniadaethol
	Deall beth yw ystyr awdurdod, cyfrifoldeb, cadwyn awdurdod, rhychwant rheoli, dirprwyo, hierarchaeth, canoli a datganoli, grymuso a dihaenu
	Esbonio nodweddion strwythurau trefniadaethol gwahanol gan gynnwys strwythurau hierarchaidd (tal a gwastad) a matrices
	Esbonio manteision ac anfanteision newidiadau mewn strwythurau trefniadaethol a dihaenu
	Gwerthuso'r dewis rhwng grymuso a rheoli'r gweithlu
	Gwerthuso priodoldeb strwythurau trefniadaethol gwahanol i fusnes a'i randdeiliaid
Cymhelliant	Esbonio beth yw ystyr cymhelliant a buddion gweithlu wedi'i gymell
	Esbonio damcaniaethau cymhelliant gan gynnwys F.W. Taylor (rheoli gwyddonol), E. Mayo (perthnasoedd dynol), A. Maslow (hierarchaeth anghenion), F. Herzberg (damcaniaeth dau ffactor) a V. Vroom, L. Porter ac E. Lawler (damcaniaethau disgwyliad)
	Gwerthuso perthnasedd damcaniaethau cymhelliant a'u pwysigrwydd i fusnesau
	Esbonio dulliau ariannol o gymhelliant gan gynnwys talu yn ôl y gwaith, comisiwn, bonws, cyflog, rhannu elw, perchenogaeth cyfranddaliadau a thalu yn ôl perfformiad
	Esbonio dulliau cymhelliant nad ydynt yn ariannol gan gynnwys ymgynghoriad, llunio swyddi, ehangu swyddi, cylchdroi swyddi, cyfoethogi swyddi, grymuso, gweithio mewn tîm a gweithio'n hyblyg
	Gwerthuso priodoldeb gwahanol ddulliau cymell, rhai ariannol a rhai nad ydynt yn ariannol i fusnes a'i randdeiliaid
	Gwerthuso effaith gweithlu wedi'i gymell ar fusnes a'i randdeiliaid

Cynnwys	Manylion y Cynnwys
Rheoli ac arwain	Esbonio beth yw ystyr rheoli Esbonio swyddogaethau a rolau rheoli Esbonio manteision ac anfanteision rheoli yn ôl amcanion Esbonio damcaniaeth X a damcaniaeth Y D. McGregor Gwerthuso pwysigrwydd rheoli i fusnes a'i randdeiliaid Esbonio beth yw ystyr arwain Esbonio mathau gwahanol o arddulliau arwain gan gynnwys unbenaethol, democrataidd, tadol, biwrocataidd a laissez faire Esbonio'r damcaniaethau arweinyddiaeth gan gynnwys F. Fiedler (1976) and P. Wright and D. Taylor (1984) Gwerthuso pwysigrwydd ac effaith arweinyddiaeth i fusnes a'i randdeiliaid Gwerthuso priodoldeb arddulliau a damcaniaethau arwain amrywiol i sefyllfaoedd busnes gwahanol
Perthnasoedd cyflogwr/gweithiwr	Esbonio beth yw ystyr perthnasoedd cyflogwr/gweithiwr Esbonio dyletswyddau a hawliau cyflogwyr a gweithwyr gan gynnwys contract cyflogaeth, iechyd a diogelwch, isafswm cyflog a diswyddo Esbonio beth yw ystyr cyfleoedd cyfartal Gwerthuso effaith cyfleoedd cyfartal ar gyflogwyr a gweithwyr Esbonio rôl undebau llafur gan gynnwys cydfargeinio, eu manteision ac anfanteision Esbonio beth yw ystyr gwrthdaro cyflogwr a gweithiwr gan gynnwys anghydfodau masnach a gweithredu diwydiannol Esbonio dulliau datrys anghydfod gan gynnwys trafod, ymgynghori a rôl ACAS Gwerthuso effaith cysylltiadau cyflogwr/gweithiwr, gwrthdaro a datrys ar fusnes a'i randdeiliaid

Cynnwys	Manylion y Cynnwys
Rheoli gweithrediadau	Deall natur rheoli gweithrediadau mewn mathau gwahanol o fusnesau
Ychwanegu gwerth	Esbonio beth yw ystyr ychwanegu gwerth Cyfrifo ychwanegu gwerth Esbonio ffyrdd o gynyddu ychwanegu gwerth Gwerthuso pwysigrwydd ychwanegu gwerth i fusnes a'i randdeiliaid
Cynhyrchu	Esbonio'r dulliau gwahanol o gynhyrchu gan gynnwys yn ôl y gwaith, swp-gynhyrchu a llif-gynhyrchu Gwerthuso dulliau priodol o gynhyrchu i fusnesau
Cynhyrchedd	Esbonio beth yw ystyr cynhyrchedd Deall ffyrdd o fesur cynhyrchedd Esbonio ffyrdd i'w defnyddio i gynyddu cynhyrchedd Gwerthuso pwysigrwydd ac effaith cynhyrchedd i fusnes a'i randdeiliaid Esbonio'r cysyniad o ddefnyddio capasiti/gallu Cyfrifo a dehongli defnyddio capasiti/gallu Gwerthuso'r cysyniad o ddefnyddio capasiti/gallu i fusnes a'i randdeiliaid
Technoleg	Esbonio sut mae busnesau newydd yn gallu defnyddio technoleg newydd, gan gynnwys defnyddio technoleg gwybodaeth, CAD, CAM a roboteg Gwerthuso effaith technoleg newydd ar amrywiol randdeiliaid busnes Gwerthuso pwysigrwydd ac effaith technoleg yng ngweithrediadau busnes
Cynhyrchu main	Esbonio beth yw ystyr cynhyrchu main Esbonio'r amrywiaeth o arferion cynhyrchu main sy'n cael eu defnyddio i leihau gwastraff a gwella cynhyrchedd gan gynnwys <i>kaizen</i> (parhau i wella), mewn union bryd, cynhyrchu celloedd a rheolaeth seiliedig ar amser Gwerthuso pwysigrwydd ac effaith cynhyrchu main i fusnesau a'u rhanddeiliaid

Cynnwys	Manylion y Cynnwys
Ansawdd	Esbonio beth yw ystyr ansawdd Dadansoddi pwysigrwydd ansawdd i fusnes Esbonio'r gwahaniaeth rhwng rheoli ansawdd a sicrhau ansawdd Esbonio cysyniad rheolaeth lwyr ar ansawdd (TQM) a'r ffyrdd o gyflawni hynny gan gynnwys cadwyni ansawdd, grymuso, monitro, gwaith tîm, sero diffygion, cylchoedd ansawdd a meincnodi Gwerthuso pwysigrwydd ansawdd i fusnes a'i randdeiliaid
Prynu	Esbonio pwysigrwydd prynu a gweithio gyda chyflenwyr Esbonio beth yw ystyr rheoli stoc Deall pwysigrwydd rheoli stoc Esbonio dulliau rheoli stoc gan gynnwys dulliau traddodiadol o reoli stoc, dulliau mewn union bryd a dulliau cyfrifiadurol o reoli stoc Dehongli diagramau rheoli stoc ac esbonio'r prif gydrannau gan gynnwys lefel ailarchebu, amser arweiniol, stoc clustogi a lefel isaf stoc Gwerthuso'r pwysigrwydd ac effaith ar fusnesau a'u rhanddeiliaid o gael gormod o stoc neu fod yn brin o stoc
Ymchwil a datblygu (R&D)	Esbonio beth yw ystyr arloesi, ymchwil a datblygu Esbonio'r broses o ddylunio a datblygu cynnyrch Gwerthuso costau a buddion arloesi, ymchwil a datblygu i fusnes a'i randdeiliaid
Darbodion maint	Esbonio beth yw ystyr darbodion maint Esbonio'r mathau gwahanol o ddarbodion maint mewnol Esbonio darbodion maint allanol Esbonio sut mae busnesau'n elwa o'r mathau gwahanol o ddarbodion maint mewnol ac allanol Esbonio rhesymau dros annarbodion maint mewnol Esbonio'r problemau sy'n cael eu hachosi gan annarbodion maint mewnol Esbonio goroesiad cwmnïau bach Gwerthuso effaith darbodion ac annarbodion maint ar fusnes a'i randdeiliaid

2.2 UNEDAU U2

Uned 3 Dadansoddiad Busnes a Strategaeth Fusnes

Arholiad ysgrifenedig: 2 awr 15 munud

30% o'r cymhwyster

Mae Uned 3 yn adeiladu ar y theori a gyflwynwyd yn Unedau 1 a 2. Yn yr uned hon, fel y mae'r teitl yn ei awgrymu, mae'r pwyslais ar ddeall a defnyddio technegau dadansoddi a datblygu strategaethau busnes priodol.

Mae angen i ddysgwyr ddeall, llunio a dadansoddi amrywiaeth o fodelau gwneud penderfyniadau a dulliau gwerthuso buddsoddiadau sy'n cael eu defnyddio gan fusnesau i benderfynu ar eu strategaeth.

Mae angen i ddysgwyr ddatblygu sgiliau dadansoddi er mwyn ymchwilio i gyfleoedd a phroblemau busnes mewn nifer o gyd-destunau gwahanol a gwerthuso amrywiaeth o ddata meintiol ac ansoddol er mwyn gallu awgrymu ymatebion strategol posibl gan fusnesau.

Bydd angen i ddysgwyr astudio'r meysydd cynnwys canlynol:

- Dadansoddi Data
- Dadansoddiad marchnad
- Rhagfynegi gwerthiant
- Dadansoddi perfformiad ariannol
- Dadansoddi perfformiad nad yw'n ariannol
- Nodau ac amcanion
- Strategaeth a gweithrediad
- Modelau gwneud penderfyniadau
- Gwerthuso buddsoddiad
- Archebion arbennig

Cynnwys	Manylion y Cynnwys
Dadansoddi Data	Cyflwyno, dehongli a dadansoddi data, yn cynnwys siartiau cylch, histogramau a mynegrifau
Dadansoddiad marchnad	Dadansoddi data ymchwil meintiol ac ansoddol er mwyn cael dealltwriaeth well o safle'r busnes yn y farchnad a gofynion y cwsmeriaid ar hyn o bryd ac yn y dyfodol Cyfrifo a dehongli elastigeddau pris ac incwm galw Dehongli gwerthoedd rhifiadol o elastigedd pris ac incwm galw Gwerthuso effaith newidiadau mewn pris ac incwm ar dderbyniadau busnes
Rhagfynegi gwerthiant	Esbonio beth yw ystyr rhagfynegi gwerthiant Esbonio defnyddioldeb rhagfynegi gwerthiant a'r ffactorau sy'n gallu effeithio ar ei ddibynadwyedd Deall bod rhagfynegi gwerthiant yn cynnwys technegau meintiol ac ansoddol Cyfrifo cyfartaledd newidiol tri phwynt Creu graff gwasgariad a llinell ffit orau Defnyddio allosod i ragfynegi datblygiadau'r dyfodol Dehongli gwybodaeth o ddadansoddiad cyfres amser Deall bod cydberthyn yn gallu bod yn gadarnhaol, negyddol neu ddim yn bodoli Gwerthuso defnyddioldeb dadansoddiad cyfres amser i fusnes a'i randdeiliaid Esbonio technegau rhagfynegi ansoddol gan gynnwys greddf, trafod syniadau a dull Delphi Gwerthuso manteision ac anfanteision defnyddio rhagfynegi ansoddol

Cynnwys	Manylion y Cynnwys
Dadansoddi perfformiad ariannol	Esbonio beth yw ystyr amrywiant cyllideb Cyfrifo amrywiannau cyllideb Dadansoddi cyllidebau ac amrywiannau cyllideb Gwerthuso defnydd ac effaith cyllidebau ac amrywiannau cyllideb i fusnes a'i randdeiliaid Esbonio prif gydrannau mantolen a sut mae'n cael ei llunio Esbonio beth yw ystyr cyfalaf gweithio, cyfalaf a ddefnyddiwyd a dibrisiant Cyfrifo cyfalaf gweithio, cyfalaf a ddefnyddiwyd (rhwymedigaethau tymor hir a chyfalaf cyfranddalwyr) a dibrisiant (dull y llinell syth yn unig) Dehongli a dadansoddi mantolen Cyfrifo a dehongli adenillion ar y cyfalaf a ddefnyddiwyd (ROCE) Cyfrifo a dehongli'r gymhareb gyfredol a'r gymhareb prawf asid Cyfrifo a dehongli'r gymhareb geriad (rhwymedigaethau tymor hir/cyfalaf a ddefnyddiwyd) Dadansoddi'r cyfrif masnachu, elw a cholled (yr adroddiad incwm) a'r fantolen er mwyn asesu perfformiad ariannol busnes Ystyried cyfrifon busnes mewn perthynas â blynnyddoedd blaenorol a busnesau eraill Gwerthuso sefyllfa ariannol busnes Deall bod camarwain a ffactorau eraill, megis newidiadau mewn galw a chwyddiant, yn gallu effeithio ar gyfrifon
Dadansoddi perfformiad nad yw'n ariannol	Esbonio sut gall mesurau nad ydynt yn ariannol, yn cynnwys arolygon agwedd cwsmeriaid, arolygon agwedd gweithwyr, cyfran o'r farchnad, cynhyrchedd a hanes amgylcheddol cwmni, gael eu defnyddio i asesu perfformiad
Nodau ac amcanion	Esbonio rôl datganiadau gweledigaeth a'u perthynas â nodau busnes Esbonio sut mae busnes yn defnyddio amcanion er mwyn cyflawni ei nodau Esbonio beth yw ystyr amcanion SMART Esbonio rôl a phwrpas datganiadau cenhadaeth Gwerthuso datganiadau gweledigaeth, amcanion a datganiadau cenhadaeth a'u heffaith ar fusnes a'i randdeiliaid

Cynnwys	Manylion y Cynnwys
Strategaeth a gweithrediad	Deall y berthynas rhwng amcanion a strategaeth Esbonio ystyr strategaeth gan gynnwys strategaeth gorfforaethol, cyfeiriad strategol, strategaeth adrannol a strategaeth swyddogaethol Esbonio'r berthynas rhwng strategaeth a thactegau Esbonio pwrpas cynlluniau corfforaethol Cymhwyso dadansoddiad SWOT at fusnes penodol Cymhwyso fframwaith Pum Grym Porter at fusnes penodol Gwerthuso strategaeth fusnes a chynlluniau corfforaethol Esbonio natur a phwrpas matrices Ansoff Cymhwyso matrices Ansoff at fusnesau gwahanol Gwerthuso defnyddioldeb matrices Ansoff i fusnesau Esbonio beth yw ystyr integreiddio llorweddol a fertigol Esbonio manteision ac anfanteision integreiddio llorweddol a fertigol Esbonio'r gwahaniaeth rhwng twf organig ac allanol Dadansoddi manteision ac anfanteision twf organig Dadansoddi manteision ac anfanteision dulliau gwahanol o dwf allanol, gan gynnwys cydsoddiadau a throsfeddiannau Esbonio natur a phwrpas masnachfaint/trwyddedu fel dull tyfu Gwerthuso dulliau gwahanol y gall busnesau eu defnyddio er mwyn tyfu Esbonio beth yw ystyr rhesymoli Esbonio'r ffactorau sy'n effeithio ar benderfyniadau am leoli/adleoli a rhesymoli Gwerthuso effaith y dewis o leoliad/adleoliad a rhesymoli ar fusnes a'i randdeiliaid Esbonio beth yw ystyr anfon gwaith cynhyrchu allan (<i>outsourcing</i>) Gwerthuso'r dadleuon o blaid ac yn erbyn anfon gwaith cynhyrchu allan

Cynnwys	Manylion y Cynnwys
Modelau gwneud penderfyniadau	Esbonio'r mathau o benderfyniadau mae busnes yn eu gwneud gan gynnwys rhai strategol, tactegol a gweithredol Esbonio pwysigrwydd gwneud penderfyniadau i fusnes Deall y gall dulliau gwneud penderfyniadau fod yn rhai gwyddonol neu'n rhai greddfodol Esbonio natur a phwrpas dadansoddiad coeden benderfyniadau, gan wneud sylw am fuddion a chyfyngiadau'r dechneg Llunio coed penderfyniadau, dehongli ac asesu'r canlyniadau Esbonio natur a phwrpas dadansoddiad llwybr critigol (CPA), gan wneud sylw am fuddion a chyfyngiadau'r dechneg Cwblhau diagramau CPA, dehongli a gwerthuso'r canlyniadau Esbonio natur a phwrpas dadansoddiad cost a budd (CBA), gan wneud sylw am fuddion a chyfyngiadau'r dechneg Cynnal dadansoddiad cost a budd, dehongli a gwerthuso'r canlyniadau Gwerthuso manteision ac anfanteision defnyddio coed penderfyniadau, CPA neu CBA ar gyfer gwneud penderfyniadau busnes Esbonio rôl allweddol technoleg gwybodaeth wrth wneud penderfyniadau busnes
Gwerthuso buddsoddiad	Esbonio beth yw ystyr gwerthuso buddsoddiad Esbonio pwrpas gwerthuso buddsoddiad Cyfrifo a dehongli cyfnod ad-dalu buddsoddiad mewn blynyddoedd a misoedd Cyfrifo a dehongli cyfradd adenillion gyfartalog (ARR) buddsoddiad Defnyddio llif arian disgowntiedig (DCF) i gyfrifo gwerth presennol net (NPV) buddsoddiad (bydd ffactorau disgowntio yn cael eu rhoi, ni fydd angen cyfrifo'r rhain) Gwerthuso manteision ac anfanteision dulliau gwerthuso buddsoddiad gwahanol i fusnes a'i randdeiliaid Gwerthuso dichonoleb opsiynau buddsoddi, gan ystyried ffactorau meintiol ac ansoddol, er mwyn gwneud argymhellion
Archebion arbennig	Esbonio beth yw ystyr archebion arbennig Cyfrifo cyfraniad a chynghori pa mor briodol neu ddim yw derbyn archebion arbennig

Uned 4 Busnes mewn Byd sy'n Newid

Arholiad ysgrifenedig: 2 awr 15 munud

30% o'r cymhwyster

Bydd Uned 4 yn asesu'r cynnwys Safon Uwch llawn.

Mae Uned 4 yn canolbwyntio ar sut mae busnesau'n addasu i lwyddo mewn amgylchedd allanol dynamig. Mae angen i ddysgwyr ddeall nad yw'r byd busnes byth yn aros ar ei unfan a bod cyfleoedd a bygythiadau di-dor i fusnesau o bob maint.

Mae angen i ddysgwyr ddeall bod busnesau erbyn hyn, beth bynnag yw eu maint, yn gweithredu mewn marchnad fyd-eang ac mae angen iddynt felly ystyried amrywiaeth eang o ffactorau allanol sy'n effeithio ar eu gweithgareddau o ddydd i ddydd, y penderfyniadau maent yn eu gwneud a'u strategaeth.

Mae gofyn i'r dysgwyr gyfannu'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau a ddatblygwyd yn y pedair uned er mwyn cael dealltwriaeth gyfannol o weithgaredd busnes a'r amgylchedd mae busnesau'n gweithredu ynddo.

Bydd angen i ddysgwyr astudio'r meysydd cynnwys canlynol:

- Newid
- Rheolaeth risg
- Ffactorau PEST
- Ffactorau moesegol, cyfreithiol ac amgylcheddol
- Masnach ryngwladol
- Globaleiddio
- Yr Undeb Ewropeaidd

Cynnwys	Manylion y Cynnwys
Newid	Esbonio achosion newid mewn busnes gan gynnwys newid ym maint y busnes, newid yn ei berchenogaeth, datblygiadau o ran technoleg, newidiadau i'r farchnad, chwaeth defnyddwyr, deddfwriaeth, newidiadau yn y gweithlu a newidiadau yn yr economi Gwahaniaethu rhwng achosion newid mewnol ac allanol Gwahaniaethu rhwng newid a gynlluniwyd a newid na gynlluniwyd Esbonio effeithiau newid ar fusnes gan gynnwys yr angen i newid dulliau cynhyrchu a diweddarau offer, yr angen i ddatblygu cynhyrchion newydd, yr angen i fodloni gofynion cyfreithiol, yr angen i ailhyfforddi'r gweithlu a'r angen i chwilio am farchnadoedd newydd Esbonio pwysigrwydd rheoli newid yn effeithiol Esbonio dulliau gwahanol o reoli newid gan gynnwys pedwar dull gwahanol J. Storey Esbonio pam gall fod gwrthwynebiad i newid a ffyrdd o ddileu'r gwrthwynebiad hwnnw gan gynnwys proses tri cham Lewin, newidiadau yn y diwylliant trefniadaethol a rôl arweinyddiaeth Esbonio sut gellir gwerthuso rheolaeth newid Gwerthuso effaith newid ar fusnes a'i randdeiliaid Gwerthuso pwysigrwydd rheoli newid yn effeithiol
Rheolaeth risg	Adnabod y risgiau mae busnesau'n debygol o'u hwynebu, gan gynnwys trychinebau naturiol, methiant cyfarpar/technoleg, gwall gweithiwr, problemau cyflenwi, ffactorau economaidd, heriau cyfreithiol, cysylltiadau cyhoeddus a methiannau cynhyrchion Esbonio ei bod yn fwy sicr y bydd rhai risgiau'n digwydd nag eraill ac y bydd hyn yn effeithio ar faint o arian mae busnes yn barod i'w wario ar eu hatal Esbonio pwysigrwydd asesu risg fel ffordd o osgoi risgiau Esbonio sut mae modd gweithredu i atal rhai risgiau gan ddefnyddio dulliau atal fel gosod ysgeintellau dŵr, gwneud copïau wrth gefn o ddata TG a hyfforddi gweithwyr Esbonio'r gwahaniaeth rhwng risgiau y mae modd yswirio yn eu herbyn a risgiau nad oes modd yswirio yn eu herbyn Esbonio beth yw ystyr cynllunio wrth gefn a rheoli argyfwng Esbonio'r ffyrdd y mae busnesau'n gallu eu defnyddio wrth gynllunio wrth gefn i ddelfio â risgiau a allai effeithio ar eu gweithgareddau megis cael cronfeydd wrth gefn, trefniadau cynhyrchu gwahanol, dyrannu cyfrifoldebau i reolwyr/gweithwyr a delio â chysylltiadau cyhoeddus mewn argyfwng Gwerthuso ymatebion posibl busnes i'r risgiau posibl mae'n eu hwynebu Gwerthuso pwysigrwydd rheoli risg a chynllunio wrth gefn i fusnes a'i randdeiliaid

Cynnwys	Manylion y Cynnwys
Ffactorau PEST	
Gwleidyddol	Esbonio sut mae ffactorau gwleidyddol yn effeithio ar weithgaredd busnes yng Nghymru, gweddill y DU a'r byd Esbonio rôl y llywodraeth yn darparu fframwaith sefydlog i fusnesau weithredu ynddo Esbonio sut mae trethiant a chymorthdaliadau'n effeithio ar fusnesau Esbonio sut mae polisiau cyllidol ac ariannol yn effeithio ar fusnesau Esbonio pam mae llywodraethau'n deddfwriaethu ac yn rheoleiddio gweithgaredd busnes Esbonio pwysigrwydd y llywodraeth fel prynwr nwyddau a gwasanaethau gan y sector preifat Gwerthuso'r berthynas rhwng llywodraeth a busnesau
Economaidd	Esbonio sut mae ffactorau economaidd yn effeithio ar weithgaredd busnes yng Nghymru, gweddill y DU a'r byd Esbonio beth yw ystyr twf economaidd a'r cylchred busnes a'u mesur (CMC) Esbonio beth yw ystyr chwyddiant gan gynnwys ei fesur ac achosion Esbonio beth yw ystyr cyfraddau llog Esbonio beth yw ystyr cyfraddau cyfnewid Esbonio beth yw ystyr diweithdra Gwerthuso effaith y cylchred busnes, chwyddiant, cyfraddau llog, cyfraddau cyfnewid a diweithdra ar fusnesau a'u rhanddeiliaid
Cymdeithasol	Esbonio beth yw ystyr newid demograffig Esbonio sut mae newid demograffig a ffactorau cymdeithasol eraill fel newid yn chwaeth defnyddwyr, ffordd o fyw a newidiadau diwylliannol yn effeithio ar weithgaredd busnes yng Nghymru a gweddill y DU Gwerthuso effaith newid demograffig ar fusnesau a'u rhanddeiliaid Gwerthuso effaith ffactorau cymdeithasol eraill ar fusnesau a'u rhanddeiliaid
Technolegol	Esbonio sut mae ffactorau technolegol, gan gynnwys awtomeiddio a thechnoleg cyfathrebu yn effeithio ar weithgaredd busnes Gwerthuso effaith ffactorau technolegol ar fusnesau a'u rhanddeiliaid

Cynnwys	Manylion y Cynnwys
Ffactorau moesol, cyfreithiol ac amgylcheddol	
Moesegol	Esbonio ystyr moeseg busnes Deall y mathau o faterion moesegol bydd busnesau'n eu hwynebu gan gynnwys rhai amgylcheddol, hawliau anifeiliaid, triniaeth gweithwyr, cyflenwyr a chwsmeriaid Esbonio ystyr cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol (CSR) Deall y gwrthdaro posibl rhwng moeseg a phroffidioldeb Gwerthuso effaith cael amcanion moesegol ar broffidioldeb busnes Gwerthuso safiad moesegol busnesau o safbwynt rhanddeiliaid gwahanol
Cyfreithiol	Esbonio'r prif ddeddfau sy'n ymwneud â busnesau, gan gynnwys cyfraith cwmni, cyfraith cyflogaeth a gwrth-wahaniaethu, gwarchod defnyddwyr, polisi cystadleuaeth, deddfwriaeth iechyd a diogelwch, gwarchod data, eiddo deallusol ac isafswm cyflog (nid oes disgwyl i ddysgwyr gael gwybodaeth fanwl am Ddeddfau Seneddol penodol) Gwerthuso effaith deddfwriaeth ar fusnesau a'u rhanddeiliaid yng Nghymru a gweddill y DU
Amgylcheddol	Esbonio costau amgylcheddol posibl gweithgaredd busnes gan gynnwys llygredd aer, dŵr a sŵn, newid hinsawdd, tagfeydd, dinistrio'r amgylchedd a gwaredu gwastraff Esbonio sut mae ymyrraeth llywodraeth, dylanwad carfanau pwysu ac addysg yng Nghymru a gweddill y DU yn gallu rheoli costau amgylcheddol posibl Esbonio sut mae busnesau'n gallu ymateb i faterion amgylcheddol Gwerthuso'r effaith mae gweithgaredd busnes yn ei chael ar yr amgylchedd Gwerthuso'r effaith mae gweithredu polisïau cyfeillgar i'r amgylchedd yn ei chael ar fusnes

Cynnwys	Manylion y Cynnwys
Masnach Ryngwladol	Esbonio beth yw ystyr masnach ryngwladol Esbonio'r rhesymau dros fasnach ryngwladol Esbonio beth yw ystyr masnach rydd a diffynnaeth (gan gynnwys tollau a chwotâu) Esbonio beth yw ystyr bloc masnach a marchnad sengl Gwerthuso masnach rydd a diffynnaeth i fusnesau a'u rhanddeiliaid Esbonio'r heriau i fusnesau o ddatblygu marchnadoedd rhyngwladol newydd ar gyfer eu cynhyrchion i fusnesau Gwerthuso'r penderfyniad gan fusnes i ddatblygu marchnadoedd rhyngwladol newydd i'w gynhyrchion
Globaleiddio	Esbonio beth yw ystyr globaleiddio Esbonio natur globaleiddio a marchnadoedd byd-eang, gan gynnwys marchnadoedd sy'n datblygu Esbonio'r ffactorau sydd wedi cyfrannu at globaleiddio gan gynnwys technolegau cyfathrebu, rhyddfrydoli masnach, y Rhynggrwyd, cost cludiant a chwaeth defnyddwyr Esbonio effaith globaleiddio ar fusnesau a'u rhanddeiliaid yng Nghymru a gweddill y DU, gan gynnwys cynyddu'r gystadleuaeth a chyfleoedd i dyfu Esbonio'r strategaethau gwahanol y gallai busnesau eu defnyddio ar gyfer cyflawni twf byd-eang gan gynnwys brandio byd-eang, twf allanol a dewis o farchnadoedd targed Gwerthuso'r strategaethau mae busnesau'n eu defnyddio ar gyfer cyflawni twf byd-eang Esbonio manteision ac anfanteision i fusnesau o weithredu mewn marchnadoedd byd-eang Esbonio sut mae busnesau'n addasu eu cynhyrchion, gweithgareddau marchnata ac arferion gweithio i adlewyrchu anghenion lleol (<i>glocalisation</i>) Gwerthuso effaith globaleiddio ar fusnesau a'u rhanddeiliaid Esbonio beth yw ystyr cwmni amlwladol Esbonio'r rhesymau dros fodolaeth cwmnïau amlwladol Gwerthuso penderfyniad busnes i weithredu fel cwmni amlwladol Gwerthuso effaith cwmnïau amlwladol ar y gwledydd lle maent yn gweithredu

Cynnwys	Manylion y Cynnwys
Yr Undeb Ewropeaidd	Esbonio natur a phwrpas yr Undeb Ewropeaidd (UE) a'r farchnad Ewropeaidd sengl Esbonio effaith y DU ar fusnesau yng Nghymru a gweddill y DU, gan gynnwys rhyddid i symud nwyddau, llafur a chyfalaf, deddfwriaeth, rheoliadau a safonau Gwerthuso effaith yr UE ar fusnesau a'u rhanddeiliaid Esbonio beth yw ystyr yr arian cyfred sengl Ewropeaidd (yr ewro) a pharth yr Ewro Esbonio costau a buddion yr arian cyfred sengl Ewropeaidd i fusnesau a'u rhanddeiliaid Gwerthuso'r effaith mae bod yn aelod o'r UE a pharth yr Ewro yn ei chael ar fusnesau yn y DU Gwerthuso'r effaith mae peidio â bod yn aelod o'r UE a pharth yr Ewro yn ei chael ar fusnesau yn y DU

3 ASESU

3.1 Amcanion asesu a phwysoli

Mae amcanion asesu'r fanyleb hon wedi'u rhoi isod. Mae'n rhaid i ddysgwyr ddangos eu bod yn gallu gwneud y canlynol:

AA1

Dangos gwybodaeth o dermau, cysyniadau, damcaniaethau, dulliau a modelau er mwyn dangos eu bod yn deall sut mae unigolion a busnesau'n cael eu heffeithio gan faterion busnes ac yn ymateb iddyn nhw.

AA2

Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth at amrywiol gyd-destunau busnes i ddangos sut mae unigolion a busnesau'n cael eu heffeithio gan faterion ac yn ymateb iddyn nhw.

AA3

Dadansoddi materion mewn busnes, gan ddangos dealltwriaeth o effaith dylanwadau mewnol ac allanol ar unigolion ac ar fusnesau.

AA4

Gwerthuso gwybodaeth feintiol ac ansoddol er mwyn llunio barn hysbys a chynnig atebion seiliedig ar dystiolaeth i faterion busnes.

Dangosir pwysoli'r amcanion asesu isod fel canran o'r Safon Uwch lawn, mae pwysoli'r UG mewn cromfachau.

Uned	Pwysoli'r Uned	AA1	AA2	AA3	AA4
UG Uned 1	15% (37.5%)	5% (12.5%)	4% (10%)	3.5% (9%)	2.5% (6%)
UG Uned 2	25% (62.5%)	7% (17.5%)	6% (15%)	6.5% (16%)	5.5% (14%)
U2 Uned 3	30%	6%	11%	6%	7%
U2 Uned 4	30%	8%	5%	8%	9%
Cyfanswm	100%	26%	26%	24%	24%

4 GWYBODAETH DECHNEGOL

4.1 Cofrestru

Manyleb unedol yw hon sy'n caniatáu am elfen o asesu mewn camau.

Bydd cyfleoedd asesu ar gael yn ystod cyfnod asesu'r haf bob blwyddyn, tan ddiwedd oes y fanyleb hon.

Bydd Uned 1 ac Uned 2 ar gael yn 2016 (a phob blwyddyn wedi hynny) a dyfernir y cymhwyster UG am y tro cyntaf yn yr haf 2016.

Bydd Uned 3 ac Uned 4 ar gael yn 2017 (a phob blwyddyn wedi hynny) a dyfernir y cymhwyster Safon Uwch am y tro cyntaf yn yr haf 2017.

Gellir sefyll cymhwyster fwy nag unwaith. Fodd bynnag, os yw ymgeisydd wedi rhoi cynnig ar unrhyw uned ddwywaith a'i fod yn dymuno cofrestru am y trydydd tro, yna bydd rhaid i'r ymgeisydd ail-gofrestru am bob uned a'r cyfnewid priodol. Cyfeirir at hyn fel 'dechrau o'r newydd'. Pan gaiff cymhwyster ei ailgymryd (dechrau o'r newydd), gall ymgeisydd roi hyd at ddau gynnig arall ar bob uned. Fodd bynnag, ni ellir defnyddio canlyniadau o unedau a safwyd cyn dechrau o'r newydd wrth agregu'r radd (graddau) newydd.

Os cofrestrwyd ymgeisydd am uned ond ei fod yn absennol am yr uned honno, nid yw'r absenoldeb yn cyfrif fel ymgais. Fodd bynnag, byddai'r ymgeisydd yn cael ei ddisgrifio fel ymgeisydd ailsefyll.

Mae'r codau cofrestru i'w gweld isod.

	Teitl	Codau cofrestru	
		Cyfrwng Saesneg	Cyfrwng Cymraeg
UG Uned 1	Cyfleoedd Busnes	2510U1	2510N1
UG Uned 2	Swyddogaethau Busnes	2510U2	2510N2
U2 Uned 3	Dadansoddi Busnes a Stategaeth	1510U3	1510N3
U2 Uned 4	Busnes mewn Byd sy'n Newid	1510U4	1510N4
Cyfnewid Cymhwyster UG		2510QS	2510CS
Cyfnewid Cymhwyster Safon Uwch		1510QS	1510CS

Mae rhifyn cyfredol ein dogfen *Dulliau Cofrestru a Gwybodaeth am y Codau* yn rhoi'r dulliau cofrestru diweddaraf.

Nid oes unrhyw gyfyngiad ar gofrestru am y fanyleb hon ynghyd ag unrhyw fanyleb UG neu Safon Uwch arall CBAC.

4.2 Graddio, dyfarnu ac adrodd yn ôl

Bydd y graddau cyffredinol ar gyfer y cymhwyster TAG UG yn cael eu cofnodi fel gradd ar y raddfa A i E. Bydd y graddau cyffredinol ar gyfer y cymhwyster TAG Safon Uwch yn cael eu cofnodi fel gradd ar y raddfa A* i E. Bydd y canlyniadau sy'n methu â chyrraedd y safon isaf ar gyfer y dyfarniad yn cael eu dangos fel U (annosbarthedig). Defnyddir llythyren fach a i e i ddangos graddau unedau ar slipiau canlyniadau ond nid ar y tystysgrifau.

Defnyddir y Raddfa Marciau Unffurf (GMU) mewn manylebau unedol fel ffordd o adrodd, cofnodi a chyfansymio canlyniadau asesiadau uned ymgeiswyr. Mae'r GMU yn cael ei defnyddio fel y bydd ymgeiswyr sy'n cyrraedd yr un safon yn cael yr un marc unffurf, pryd bynnag y cymerwyd yr uned. Bydd canlyniadau unedau unigol a'r dyfarniad pwnc cyffredinol yn cael eu mynegi fel marc unffurf ar raddfa sy'n gyffredin i bob cymhwyster TAG. Mae cyfanswm o 200 marc unffurf i'r TAG UG a chyfanswm o 500 marc unffurf i'r TAG Safon Uwch. Mae uchafswm marciau unffurf unrhyw uned yn dibynnu ar y pwysoli am yr uned honno yn y fanyleb.

Mae marciau unffurf yn cyfateb i raddau uned fel a ganlyn:

Pwysoli'r Unedau	Uchafswm marciau unffurf uned	Gradd uned				
		a	b	c	d	e
Uned 1 (15%)	75	60	53	45	38	30
Uned 2 (25%)	125	100	88	75	63	50
Uned 3 (30%)	150	120	105	90	75	60
Uned 4 (30%)	150	120	105	90	75	60

Mae'r marciau unffurf a enillwyd am bob uned yn cael eu hadio at ei gilydd a'r radd am y pwnc yn cael ei seilio ar y cyfanswm hwn.

	Uchafswm marciau unffurf	Gradd y cymhwyster				
		A	B	C	D	E
TAG UG	200	160	140	120	100	80
TAG Safon Uwch	500	400	350	300	250	200

Ar Safon Uwch, dyfernir Gradd A* i ymgeiswyr sydd wedi ennill Gradd A (400 marc unffurf) yn y cymhwyster Safon Uwch cyffredinol ac o leiaf 90% o gyfanswm y marciau unffurf ar gyfer yr unedau U2 (270 marc unffurf).

ATODIAD A

Sgiliau Meintiol mewn Busnes

Er mwyn datblygu eu sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth mewn busnes, mae angen i ddysgwyr fod yn gymwys yn y sgiliau meintiol sy'n berthnasol i gynnwys y pwnc, ac yn gallu gwneud y canlynol:

- cyfrifo, defnyddio a deall cymarebau, cyfartaleddau a ffracsiynau
- cyfrifo, deall a defnyddio canrannau a newidiadau canrannau
- llunio a dehongli ystod o ffurfiau graffigol safonol
- dehongli mynegrifau
- cyfrifo cost, derbyniadau, elw ac adennill costau
- cyfrifo canlyniadau gwerthuso buddsoddiad a dehongli canlyniadau
- dehongli gwerthoedd elastigedd galw pris ac incwm
- defnyddio a dehongli gwybodaeth feintiol ac anfeintiol er mwyn gwneud penderfyniadau
- dehongli, cymhwyso a dadansoddi gwybodaeth ar ffurf ysgrifenedig, graffigol a rhifiadol.

Bydd asesiad sgiliau meintiol yn cynnwys sgiliau mathemategol lefel 2 o leiaf fel isafswm o 10% o'r marciau Safon Uwch cyffredinol.

Gellir asesu'r sgiliau meintiol hyn ar draws yr amcanion asesu.